Ydych chi am adeiladu diwylliant data o fewn eich sefydliad?
Ydych chi am adeiladu gallu pobl i weithio gyda data?
Yna DataBasicCymru yw beth mae ei angen arnoch chi...

Beth yw DataBasicCymru?

Rhaglen hyfforddiant yw DataBasicCymru sydd wedi'i dylunio i helpu unrhyw un mewn sefydliad, p'un a oes ganddyn nhw unrhyw brofiad neu gyfrifoldeb gyda data neu beidio, i ddod yn fwy ***hyderus*** gyda data. Ei nod yw eich helpu chi i ennill y sgiliau sylfaenol mae eu hangen i ddeall data, sydd, yn ei dro, yn eich galluogi i'w ddefnyddio'n fwy effeithiol.

Wrth i chi weithio trwy gyfres o weithdai difyr a chreadigol, y mwyafrif ohonyn nhw'n dibynnu'n gyfan gwbl ar bapur, peniau a thrafod, byddwch yn dysgu sut i:

- Adnabod a deall gwahanol fathau o ddata;
- Holi data;
- Rheoli a dadansoddi gwahanol fathau o ddata;
- Deall y gynulleidfa a beth yw eu hanghenion data;
- Dweud storïau a/neu lunio dadleuon gan ddefnyddio data; a
- Gwerthuso a chreu delweddau data effeithiol.

Mae 9naw o weithdai i gyd, pob un yn para rhwng 20 a 45 munud, ac mae'r amserlen yn hollol hyblyg. Gallwch chi ddewis gweithio trwy'r rhaglen gyfan dros ddau ddiwrnod neu gynnal cyfres o sesiynau byrrach dros nifer o wythnosau. Beth bynnag sy'n gweithio orau i chi!

Pwy yw'r gynulleidfa arfaethedig?

Mae'r rhaglen wedi'i hanelu at ddechreuwyr, y rhai sy'n newydd i ddata a'r rhai sydd eisiau / angen dysgu mwy amdano, ond mae croeso i bawb!

Does dim ots os nad oes gennych chi unrhyw brofiad o ddata na sgiliau technegol, y cyfan sydd ei angen arnom yw i chi fod â diddordeb mewn dod yn fwy hyderus wrth drin a defnyddio data.

Beth mae angen i'ch sefydliad ei wneud?

Mae mor syml ag 1, 2, 3...

Cam 1 – Dewis y llwybr trwy'r rhaglen hyfforddiant sy'n gweddu orau i chi a / neu'ch sefydliad:

- Gallwch chi ddewis defnyddio'r ***fideos a'r arweiniadau hwyluso ar-lein, am ddim*** i weithio trwy'r rhaglen, naill ai'n unigol neu fel rhan o grŵp mwy o faint; neu
- Gallwch chi ddewis ein pecyn hyfforddiant wedi'i hwyluso**, DataBasicCymru+**.

Gyda'n pecyn **DataBasicCymru+**, rydych chi'n gadael yr holl waith caled i ni. Bydd hwylusydd personol yn cael ei ddyrannu i chi a fydd nid yn unig yn arwain yr holl sesiynau hyfforddiant ond hefyd yn gweithio gyda chi, ymlaen llaw, i ddylunio'ch pecyn hyfforddiant pwrpasol.

Cam 2 – Cytuno pwy fydd yn ymgymryd â'r hyfforddiant, sut a phryd.

Cam 3 – Cysylltu â ni i weithio trwy'r opsiynau a gofyn unrhyw gwestiynau i ni am y rhaglen.

Beth mae'n costio?

I gefnogi gweithrediad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau newydd eleni, rydym yn cynnig opsiwn i awdurdodau lleol yng Nghymru gymryd un garfan o staff trwy becyn hyfforddiant **DataBasicCymru+ am ddim**. Yn rhan o'r cynnig hwn, bydd pob awdurdod lleol hefyd yn derbyn ein hyfforddiant 'Arweiniad i Gyflwyno Data', 'Arweiniad i gynhyrchu a defnyddio ystadegau cryno' ac un cwrs hyfforddiant arall o'u dewis o'n cyfres o gyrsiau hyfforddiant.

Os hoffech i ni hyfforddi staff ychwanegol, mae ein pecyn hyfforddiant wedi'i hwyluso yn costio £2,800 (ynghyd â TAW) y garfan (dim mwy nag 20 o unigolion).

Diddordeb gennych chi?

Os oes diddordeb gennych chi, cysylltwch â Ieuan sy'n arwain cyflwyniad **DataBasicCymru** a **DataBasicCymru+**.

Ieuan.Wade@data.cymru

029 2090 9500